# GRANT CREU LLEOEDD TRAWSNEWID TREFI – CANOLBARTH CYMRU

# 2025 - 2027

# ALLBYNNAU

# ALLBYNNAU

Byddai disgwyl i bob cynllun adrodd am gyflawniadau'r allbynnau canlynol.

Dyma ddiffiniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y mesurau allbwn hyn:.

**Allbynnau Trawsnewid Trefi**

| Cyfeirnod | Allbwn / Canlyniad | Diffiniad | Gofynion o ran tystiolaeth |
|---|---|---|---|
| TT01 | Nifer y swyddi gros a grëwyd | Nifer y swyddi gros a grëwyd (heb gynnwys swyddi adeiladu a gofnodwyd yn TRI 03)<br>**Swydd:**<br>Swydd barhaol newydd, h.y. nid am gyfnod penodol lle y gellir credu'n rhesymol y bydd yn parhau am gyfnod amhenodol. Dylid cyfrif y swydd ei hun, nid amcangyfrif o nifer y bobl a allai ymgymryd â'r swydd dros amser.<br><br>Gellir hefyd gyfrif swydd dymhorol, ar yr amod y disgwylir i'r swydd ddigwydd yn rheolaidd am gyfnod amhenodol. Yn yr achos hwn, dylai'r prosiect gofnodi pa gyfran o'r flwyddyn y bydd y swydd yn weithredol, yn ogystal â'r nifer o oriau bob wythnos. Ni ellir cynnwys swyddi rheoli/gweinyddu prosiect o fewn prosiect.<br><br>**DS:**<br>Dylid cofnodi'r swyddi fel swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn (CALl), yn seiliedig ar wythnos 30 awr. Er enghraifft os bydd swydd yn cynnwys gweithio 30 awr neu fwy bob wythnos, yna bydd yn 1 CALl. Os na fydd swydd yn un amser llawn, yna bydd angen rhannu'r oriau a weithir bob wythnos â 30 er mwyn rhoi cyfran y swydd CALl a gynrychiolir e.e. byddai 18 awr yr wythnos yn 0.6 CALl. Heb gynnwys swyddi adeiladu a gofnodwyd eisoes yn TRI 03.<br>**Gros:** Cyfanswm y nifer a gyflawnwyd drwy'r gweithgaredd hwn (ni waeth pa gyfran o'r prosiect a ariannwyd) ac nas addaswyd ar gyfer pwysau marw, dadleoli, | • Cadarnhad ysgrifenedig y caiff y swyddi eu creu.<br>• Cofnodion personél yn dangos y cynnydd yn nifer y cyflogeion.<br>• Unrhyw ddogfennau eraill sy'n dangos eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiect. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gollyngiadau ac effeithiau lluosyddion.<br>**Crëwyd**: Cyflawnwyd drwy gymorth neu gymorth ariannol ac nid oeddent yn bodoli cyn y gweithgaredd. Nid yw hyn yn cynnwys swyddi a adleolwyd. | |
| TT02 | Nifer y swyddi y darparwyd ar eu cyfer (a alluogwyd drwy fuddsoddiad mewn adfywio) | Nifer y swyddi y darparwyd ar eu cyfer yn y safleoedd a'r lleoliadau y cyfeirir atynt yn allbwn/canlyniad TRI 09 (Safleoedd amhreswyl a grëwyd neu a adnewyddwyd).<br>**Darparwyd ar eu cyfer:** Yr uchafswm y gellid eu lleoli ar unrhyw adeg benodol. Nid dyma'r nifer y darparwyd ar eu cyfer dros oes y safle.<br>**DS:**<br>• Os yw'r prosiect yn ymwneud ag adnewyddu safle, dylid cofnodi nifer y swyddi ychwanegol y darparwyd ar eu cyfer<br>Gellir defnyddio 'Employment Densities Guide' (3ydd Argraffiad, 2015) yr Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau wrth gyfrifo'r swyddi y darparwyd ar eu cyfer. | Cynlluniau llawr, manylebau adeiladau i gefnogi nifer y desgiau/swyddi newydd a ddarparwyd. |
| TT03 | Nifer y swyddi a grëwyd yn y sector adeiladu o ganlyniad i fuddsoddiad adfywio Llywodraeth Cymru | Mae swydd adeiladu yn cynnwys swyddi heb sgiliau, swyddi medrus, swyddi technegol a swyddi rheoli a fyddai'n rhan o'r broses o roi prosiectau adeiladu ar waith. Dylid nodi nifer y swyddi newydd fel swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl).<br>Cyfrifir y ffigur CALl cyfatebol fel a ganlyn - dylid cyfrifo cyfanswm y misoedd person ar gyfer hyd y prosiect. Wedyn, caiff y cyfanswm hwn ei rannu â 12 i ddarparu'r blynyddoedd person cyfatebol. | Cadarnhad ysgrifenedig gan y contractwr Haen 1 o nifer y swyddi a grëwyd yn ystod oes y prosiect (swyddi dros dro) a/neu nifer y swyddi a gadwyd am ddwy flynedd y tu hwnt i gyfnod ein cyllid.<br>Os caiff y swyddi hyn eu creu gan is-gontractwyr, dylai'r is-gontractwr ddarparu'r cadarnhad ysgrifenedig hwn. |
| TT04 | Cyfanswm nifer yr hyfforddeiaethau ar y prosiect | Nod hyfforddeiaethau yw sicrhau bod unigolion yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i ddod o hyd i swydd neu ddatblygu i ddysgu pellach (ar lefel uwch), megis prentisiaeth neu addysg bellach. | Copi o'r llythyr penodi ar gyfer pob hyfforddai (dylid dangos rhif tŷ a chod post yr unigolyn - gellir dileu manylion personol eraill). Oedran yr hyfforddai. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| TT05 | Nifer yr unigolion sy'n gadael hyfforddeiaethau sy'n mynd ymlaen i weithgareddau dysgu pellach (ar lefel uwch, gan gynnwys prentisiaethau) neu gyflogaeth (gan gynnwys cyflogaeth gyda'r contractwr) | Mae'r allbwn/canlyniad hwn yn mesur nifer yr unigolion sy'n gadael hyfforddeiaethau sy'n mynd ymlaen i weithgareddau dysgu pellach (ar lefel uwch) neu gyflogaeth. | Copi yn cadarnhau bod yr unigolyn wedi'i gofrestru ar gwrs neu lythyr gan y coleg yn cadarnhau bod yr unigolyn bellach yn ymgymryd ag addysg bellach. Copi o'r llythyr penodi gan y cyflogwr neu lythyr gan gyflogwr yn cadarnhau ei fod wedi derbyn yr unigolyn fel prentis. Copi o'r llythyr penodi gan y cyflogwr neu lythyr gan y cyflogwr yn cadarnhau ei fod wedi derbyn yr unigolyn. Dylid dangos rhif tŷ a chod post yr unigolyn (gellir dileu manylion personol eraill). |
| TT06 | Nifer y mentrau y darparwyd ar eu cyfer | Nifer y mentrau y darparwyd ar eu cyfer yn y safleoedd a'r lleoliadau y cyfeirir atynt yn allbwn/canlyniad TRI 09 'Safleoedd amhreswyl a grëwyd neu a adnewyddwyd'.<br>**Darparwyd ar eu cyfer:** Uchafswm nifer y mentrau y gellid eu lleoli ar unrhyw adeg benodol. Nid dyma'r nifer y darparwyd ar eu cyfer dros oes y safle.<br>**Menter:** Unrhyw endid sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd economaidd, ni waeth ar ba ffurf gyfreithiol. Mae hyn yn cynnwys unigolion hunangyflogedig neu bartneriaethau neu gymdeithasau sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd economaidd yn rheolaidd | • Cynlluniau llawr<br>• Manylebau adeiladau i gefnogi nifer y desgiau/swyddi newydd a ddarparwyd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| TT07 | Nifer yr hectarau o dir a ddatblygwyd | Nifer yr hectarau (cyfwerth â 10,000 m2) o dir llwyd neu dir glas a ddatblygwyd gyda chymorth TBA. Gall tir a ddatblygwyd gynnwys Tir cyflogaeth lle y bydd y datblygiad yn cyfrannu at fusnes neu Dir arall y gellir ei ddefnyddio wedyn at ddibenion preswyl, cymunedol a chyhoeddus.<br>**Datblygwyd:** Sicrhau bod tir yn addas i'w ddefnyddio drwy gael gwared ar gyfyngiadau ffisegol er mwyn sicrhau y gellir ei ddatblygu neu sy'n cynnwys darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau y gellir ei ddatblygu.<br>**Tir diffaith:** Tir a ddifethwyd gan brosesau cloddio neu brosesau diwydiannol eraill ac a adawyd yn segur (Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop, 2007)<br>**Tir halogedig:** Tir lle ceir perygl annerbynniol i iechyd pobl ac ecosystemau o ganlyniad i weithgaredd pobl (addaswyd o ddiffiniad Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop o 'safle halogedig', 2007).<br>**Tir glas:** Tir lle na wnaed unrhyw waith datblygu trefol yn y gorffennol; fel arfer, ar ymyl ardal adeiledig sy'n bodoli eisoes (Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop, 2007).<br>Ni chaiff y canlynol eu cynnwys yn yr allbwn/canlyniad hwn: tir ac adeiladau a ddefnyddir ar hyn o bryd at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth; tir mewn ardaloedd adeiledig nas datblygwyd yn flaenorol, e.e. parciau, tiroedd hamdden, rhandiroedd a mynwentydd; a thir a ddatblygwyd yn flaenorol, ond lle mae olion unrhyw strwythur neu weithgaredd wedi cyfuno â'r tirlun dros amser, e.e. defnydd amwynder, cyfraniad at gadwraeth natur.<br>Gall gweithgareddau adfer gynnwys y canlynol: ymdrin â halogiad, arwynebeddau sy'n bodoli eisoes a strwythurau claddedig; sefydlogi; gwastadu; darparu amddiffynfeydd rhag llifogydd; darparu cyfleustodau a gwasanaethau eraill; neu welliannau amgylcheddol.<br>Gall categorïau tir llwyd gynnwys y canlynol: tir gwag a ddatblygwyd yn flaenorol; | Dylid cofnodi'r allbwn hwn ar ôl cwblhau'r gwaith.<br>Ardal y safle - cyfeiriad post llawn gan gynnwys cod post, cofnodion y gofrestrfa dir/gweithredoedd, manylion cofrestru'r Awdurdod Lleol (ar gyfer defnydd blaenorol er mwyn sicrhau nad yw'n gategori eithriedig).<br>**Tir halogedig** – cofnod cyflwr tir wedi'i gwblhau a thystysgrif yn cadarnhau bod y gwaith adfer wedi'i gwblhau.<br>**Gwaith** – tystysgrif yn cadarnhau bod y gwaith ymarferol wedi'i gwblhau. Tystysgrif QS o'r gwaith a wnaed, e.e. gwasanaethau/cyfleustodau a seilwaith ar y safle, sylfeini wedi'u gosod, waliau a tho wedi'u hadeiladu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | adeiladau gwag nas meddiannwyd ers blwyddyn neu fwy; tir diffaith ac adeiladau adfeiliedig; tir neu adeiladau, a ddefnyddir ar hyn o bryd, a ddyrannwyd at ddibenion datblygu yn y cynllun mabwysiedig neu y mae caniatâd cynllunio ar eu cyfer; tir neu adeiladau a ddefnyddir ar hyn o bryd lle y gwyddys bod potensial i'w hailddatblygu, ond nad yw'r safleoedd wedi'u cynnwys o fewn unrhyw gynllun neu nad oes caniatâd cynllunio ar eu cyfer; adeiladau amddiffyn; neu dir a ddefnyddiwyd at ddibenion cloddio mwynau a gwaredu gwastraff. | |
| TT08 | Y safleoedd amhreswyl a grëwyd neu a adnewyddwyd (metrau sgwâr) | • Nifer y metrau sgwâr o adeiladau a grëwyd neu a adnewyddwyd at ddefnydd annomestig<br>• Mae estyniadau i adeiladau presennol hefyd yn cyfrif fel arwynebedd llawr newydd.<br>• Dylid mesur arwynebedd pob llawr mewn Metrau Sgwâr ar arwynebedd allanol gros, ac eithrio swyddfeydd y dylid eu mesur gan gyflwyno'r mesuriad mewnol net. Dylid dilyn diffiniad 'Code of Measuring Practice' RICS ar gyfer y ddau.<br>**DS:** Nid yw hyn yn cynnwys ardaloedd a ddefnyddir fel meysydd parcio neu dirlunio allanol.<br>**Crëwyd:** Adeilad newydd.<br>Adnewyddwyd: Adnewyddu adeilad presennol | Gwaith – tystysgrif yn cadarnhau bod y gwaith ymarferol wedi'i gwblhau. Tystysgrif QS o'r gwaith a wnaed, e.e. gwasanaethau/cyfleustodau a seilwaith ar y safle, sylfeini wedi'u gosod, waliau a tho wedi'u hadeiladu. |
| TT09 | Y safleoedd amhreswyl a grëwyd neu a adnewyddwyd (nifer) | Nifer yr adeiladau a grëwyd neu a adnewyddwyd at ddefnydd annomestig.<br>**Crëwyd:** Adeilad newydd.<br>**Adnewyddwyd:** Adnewyddu adeilad presennol. | Gwaith – tystysgrif yn cadarnhau bod y gwaith ymarferol wedi'i gwblhau. Tystysgrif QS o'r gwaith a wnaed, e.e. gwasanaethau/cyfleustodau a seilwaith ar y safle, sylfeini wedi'u gosod, waliau a tho wedi'u hadeiladu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| TT10 | Nifer yr unedau tai ychwanegol ar gyfer y farchnad (a adeiladwyd neu sy’n barod i’w meddiannu) o ganlyniad i gymorth gan Trawsnewid Trefi | Nifer yr unedau tai a ddatblygwyd ar gyfer y farchnad o ganlyniad i gymorth ac sy'n barod i'w meddiannu.<br>**Unedau tai ar gyfer y farchnad:** Pob uned dai, heb gynnwys unedau tai fforddiadwy (cymdeithasol/canolradd). | Nifer yr unedau preswyl a gofnodwyd ar yr adeg y caiff safle ei werthu.<br>Bydd y caniatâd cynllunio yn diffinio cyfanswm nifer yr unedau a bydd naill ai'r contract gwerthu neu'r Cytundeb A106 yn dynodi sawl un o'r unedau hyn fydd yn gartrefi 'fforddiadwy'.<br>Bydd gwerthiannau i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fwy neu lai'n bendant yn arwain at sefyllfa lle y bydd cyfanswm nifer yr unedau y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer o fewn y categori fforddiadwy.<br><br>Gall Llywodraeth Cymru roi proses archwilio ar waith er mwyn adolygu sampl o'r unedau preswyl. |
| TT11 | Nifer yr unedau tai cymdeithas ol ychwanegol ar gyfer y farchnad (a adeiladwyd neu sy’n barod i’w meddiannu) o ganlyniad i gymorth gan Trawsnewid Trefi | Mae'r allbwn/canlyniad hwn yn mesur nifer y tai cymdeithasol a gaiff eu hadeiladu yng Nghymru ac sy'n barod i'w meddiannu.<br>Tai Cymdeithasol a ddarperir gan awdurdodau lleol neu landlordiaid cymdeithasol lle mae lefelau rhent yn ystyried polisi Llywodraeth Cymru ar renti tai cymdeithasol (fel y'i diwygiwyd neu y'i disodlwyd) | Nifer yr unedau cymdeithasol y rhagwelir y cânt eu creu ar yr adeg y caiff safle ei werthu.<br>Copi o'r caniatadau cynllunio yn diffinio cyfanswm nifer yr unedau.<br>Contract gwerthu neu Gytundeb A106 yn dynodi sawl uned fydd yn unedau cymdeithasol.<br>Nifer yr unedau a gaiff eu hadeiladu gan Awdurdodau Lleol neu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig neu a gaiff eu gwerthu i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.<br><br>Gellir rhoi proses archwilio ar waith i adolygu sampl ganrannol o'r unedau er mwyn cadarnhau'r canlyniad terfynol er mwyn dilysu bod y canlyniad terfynol yn unol â'r allbynnau a gofnodwyd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| TT12 | Nifer yr unedau tai canolradd ychwanegol ar gyfer y farchnad (a adeiladwyd neu sy’n barod i’w meddiannu) o ganlyniad i gymorth gan Trawsnewid Trefi | Mae'r allbwn/canlyniad hwn yn mesur nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd ac sydd ar gael i'w meddiannu yng Nghymru bob blwyddyn.<br>Ystyr tai canolradd yw tai y mae eu prisiau neu eu rhenti yn uwch na rhent cymdeithasol ond yn is na phrisiau neu renti tai ar y farchnad.<br>Y mesur yw nifer yr unedau tai hunangynhwysol a gedwir fel unedau "canolradd" a ddatblygwyd o ganlyniad i gymorth e.e.<br>Unedau i'w gosod gan Gynghorau a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eraill<br>Unedau i'w gwerthu am bris is na gwerth y farchnad<br>Unedau cydberchenogaeth. | Nifer yr unedau preswyl fforddiadwy y rhagwelir y cânt eu creu ar yr adeg y caiff safle ei werthu.<br>Nifer yr unedau preswyl gwirioneddol pan gânt eu dychwelyd i'r farchnad fel cartrefi fforddiadwy.<br>Copi o'r caniatadau cynllunio yn diffinio cyfanswm nifer yr unedau.<br>Contract gwerthu neu Gytundeb A106 yn dynodi sawl uned fydd yn gartrefi fforddiadwy.<br>Nifer yr unedau a gaiff eu gwerthu i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.<br><br>Gellir rhoi proses archwilio ar waith i adolygu sampl ganrannol o'r unedau er mwyn cadarnhau'r canlyniad terfynol er mwyn dilysu bod y canlyniad terfynol yn unol â'r allbynnau a gofnodwyd. |
| TT13 | Nifer yr aelwydydd a gafodd gymorth tuag at sicrhau gwelliannau o ran perfformiad ynni eu cartrefi | Mae'r allbwn/canlyniad hwn yn mesur nifer yr aelwydydd a gafodd gymorth tuag at sicrhau gwelliannau o ran perfformiad ynni eu cartrefi. Nid yw hyn yn cynnwys eiddo a gafodd eu gwella fel rhan o SATC na phrosiectau mewn ardaloedd adnewyddu oni chânt eu cyflawni gan ddefnyddio cyllid TBA. | Cyfeiriadau'r eiddo a gafodd eu gwella |
| TT14 | Nifer y cartrefi gwag yr ailddechreu wyd eu defnyddio | Mae'r allbwn/canlyniad hwn yn mesur nifer yr anheddau yn y sector preifat a oedd wedi bod yn wag ers mwy na chwe mis ar ddechrau'r flwyddyn ariannol (1 Ebrill) yr ailddechreuwyd eu meddiannu yn ystod y flwyddyn drwy gamau gweithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol megis cynlluniau i adnewyddu tai neu atgyweirio grwpiau o dai. | Cyfeiriadau'r eiddo a gafodd eu gwella ac sydd ar gael i'w meddiannu. |
| TT15 | Nifer yr unedau amhreswyl yr | Mae'r allbwn/canlyniad hwn yn mesur nifer yr unedau amhreswyl a fu'n wag ers mwy na chwe mis ar ddechrau'r flwyddyn ariannol (1 Ebrill) yr ailddechreuwyd eu | Cyfeiriadau'r eiddo a gafodd eu gwella ac sydd ar gael i'w meddiannu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ailddechreuwyd eu defnyddio | meddiannu yn ystod y flwyddyn drwy gamau gweithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. | |
| TT16 | Gostyngiad amcangyfrifedig mewn allyriadau sy'n cyfateb i $CO_2$ | Mesur o'r gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr ar ôl cwblhau'r gweithgaredd a ariannwyd.<br>Uned - Tunelli sy'n cyfateb i $CO_2$ | Byddai'r gostyngiadau yn seiliedig ar yr hyn a ddisgwyliwyd pe na châi'r prosiect ei roi ar waith.<br>**Cyfrifo:** Dylid mesur y tunelli o garbon a gaiff eu harbed gan ddefnyddio 'GHG Conversion Factors for Company Reporting' gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ('Greenhouse gas reporting - Conversion factors 2016 - https://www.gov.uk/government/publications/greenhouse-gas-reporting-conversion-factors-2016) |
| TT17 | Nifer yr unigolion sy'n cwblhau cyrsiau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth neu'n ennill cymhwyster sy'n gysylltiedig â chyflogaeth | Mesur o nifer y bobl ddiwaith neu economaidd anweithgar a gaiff eu cyflogi gan y prosiect neu sy'n cymryd rhan yn y prosiect ac sy'n cwblhau cyrsiau hyfforddiant sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn ystod y cyfnod hwnnw.<br>Y diffiniad o unigolion economaidd anweithgar yw unigolion nad ydynt yn chwilio am waith neu na allant ddechrau gweithio ar unwaith gan eu bod yn ofalwr neu wedi ymddeol, yn astudio neu'n methu â gweithio oherwydd anabledd neu salwch.<br>Y diffiniad o unigolion diwaith yw unigolion sy'n chwilio am waith neu y gallant ddechrau gweithio o fewn pythefnos.<br>Diffinnir "hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith" fel unrhyw gwrs hyfforddiant neu weithgaredd arall sy'n anelu at rannu, dysgu, gwella neu atgyfnerthu unrhyw wybodaeth, sgiliau neu rinweddau personol a fydd yn golygu bod yr unigolyn yn gymwys neu'n fwy cymwys i ddod o hyd i swydd.<br>Nid yw'n cynnwys cyfleoedd a dderbynnir | Llythyr gan y darparwr hyfforddiant neu'r sefydliad hyfforddi yn cadarnhau'r niferoedd sy'n cwblhau cyrsiau gan gynnwys manylion rhif tŷ a chod post pob unigolyn.<br>Llythyr gan y darparwr hyfforddiant neu'r sefydliad hyfforddi yn cadarnhau'r niferoedd sy'n ennill cymwysterau gan gynnwys manylion rhif tŷ a chod post pob unigolyn.<br>Copi o'r llythyr penodi yn cadarnhau bod y penodiad am gyfnod o chwe mis o leiaf ar gyfer pob hyfforddai/prentis.<br>Oedran yr unigolion. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | drwy froceriaid Esgyn. Caiff y cyfleoedd hyn eu cofnodi drwy raglen Esgyn. | |
| TT18 | Nifer y busnesau bach a chanolig yng Nghymru sy'n llwyddo i ennill contractau/is-gontractau | Lle y dyfernir contractau llawn neu gontractau rhannol i fusnesau bach a chanolig wedi'u lleoli yng Nghymru mewn perthynas â phrosiectau unigol, dylid cofnodi nifer y busnesau bach a chanolig hynny.<br>Busnesau Bach a Chanolig - categori o fusnes awtonomaidd o faint micro, bach neu ganolig sy'n cyflogi llai na 250 o bobl ac sydd â throsiant blynyddol nad yw'n fwy na EUR 50 miliwn, a/neu fantolen flynyddol nad yw'n fwy na EUR 43 miliwn.<br>Rydych yn awtonomaidd o dan yr amgylchiadau canlynol:<br>– os ydych yn gwbl annibynnol, h.y. nid ydych yn cyfranogi mewn mentrau eraill ac nid oes unrhyw fenter arall yn cyfranogi yn eich menter chi.<br>– os ydych yn meddu ar lai na 25% o'r cyfalaf neu'r hawliau pleidleisio (pa un bynnag yw'r uchaf) mewn un fenter arall neu fwy a/neu nid oes gan eraill o'r tu allan gyfran o 25% neu fwy o'r cyfalaf neu'r hawliau pleidleisio (pa un bynnag yw'r uchaf) yn eich menter. Os ydych yn awtonomaidd, mae'n golygu nad ydych yn bartner nac yn gysylltiedig â menter arall. | Copïau o ddogfennau contract ar ôl tendr. |
| TT19 | Gwerth y contractau/is-gontractau a ddyfarnwyd i fusnesau bach a chanolig wedi'u lleoli yng Nghymru (£) | Lle y dyfernir contractau llawn neu gontractau rhannol i fusnesau bach a chanolig wedi'u lleoli yng Nghymru mewn perthynas â phrosiectau unigol, dylid cofnodi gwerth y contractau hynny.<br>Busnesau Bach a Chanolig - categori o fusnes awtonomaidd o faint micro, bach neu ganolig sy'n cyflogi llai na 250 o bobl ac sydd â throsiant blynyddol nad yw'n fwy na EUR 50 miliwn, a/neu fantolen flynyddol nad yw'n fwy na EUR 43 miliwn.<br>Rydych yn awtonomaidd o dan yr amgylchiadau canlynol: | Copïau o ddogfennau contract ar ôl tendr a 'ffurflen dendr'. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | – os ydych yn gwbl annibynnol, h.y. nid ydych yn cyfranogi mewn mentrau eraill ac nid oes unrhyw fenter arall yn cyfranogi yn eich menter chi.<br>– os ydych yn meddu ar lai na 25% o'r cyfalaf neu'r hawliau pleidleisio (pa un bynnag yw'r uchaf) mewn un fenter arall neu fwy a/neu nid oes gan eraill o'r tu allan gyfran o 25% neu fwy o'r cyfalaf neu'r hawliau pleidleisio (pa un bynnag yw'r uchaf) yn eich menter. Os ydych yn awtonomaidd, mae'n golygu nad ydych yn bartner nac yn gysylltiedig â menter arall. | |
| TT20 | Cynefin a grëwyd (metrau sgwâr) | Ardal o gynefin newydd a grëwyd mewn canol trefi sy'n darparu cartrefi a bwyd ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau bywyd gwyllt.<br><br>Gall hyn gynnwys, er enghraifft, darparu parciau a gerddi trefol, gerddi pen to, bocsys ystlumod, cychod gwenyn, coed a pherthi, a planhigion priodol i ddarparu bwyd i adar, gwenyn a trychfilod etc. | • Lluniad 'fel yr adeiladwyd'<br>• Manyleb manwl o'r gwaith<br>• Ffotograffau o'r cynllun wedi'i gwblhau |
| TT21 | Man cyhoeddus gwyrdd hygyrch a grëwyd (metrau sgwâr) | Man gwyrdd hygyrch newydd o ansawdd uchel mewn canol trefi, sy'n darparu lle i bobl ymlacio mewn amgylchedd deniadol a man tawel i wella lles pobl.<br><br>Gall hyn gynnwys, er enghraifft, parciau poced. | • Lluniad 'fel yr adeiladwyd'<br>• Manyleb manwl o'r gwaith<br>• Ffotograffau o'r cynllun wedi'i gwblhau |
| TT22 | Man cyhoeddus gwyrdd hygyrch a wellwyd (metrau sgwâr) | Man gwyrdd cyhoeddus hygyrch o ansawdd wael mewn canol trefi a wellwyd er mwyn darparu man gwyrdd o ansawdd sy'n cynnig amgylchedd deniadol lle gall pobl ymlacio a man tawel i wella lles pobl. | • Lluniad 'fel yr adeiladwyd'<br>• Manyleb manwl o'r gwaith<br>• Ffotograffau o'r cynllun wedi'i gwblhau |
| TT23 | Mannau hamdden newydd (metrau sgwâr) | Man hamdden gwyrdd newydd o ansawdd uchel mewn canol trefi lle gall pobl a chymunedau ryngweithio, chwarae a gwneud ymarfer corff.<br><br>Dyma enghreifftiau o brosiectau:<br>• parciau trefol neu barciau poced newydd<br>• mannau chwarae<br>• campfeydd gwyrdd | • Lluniad 'fel yr adeiladwyd'<br>• Manyleb manwl o'r gwaith<br>• Ffotograffau o'r cynllun wedi'i gwblhau |
| TT24 | Mannau hamdden a wellwyd | Mannau hamdden o ansawdd wael mewn canol trefi a wellwyd. | • Lluniad 'fel yr adeladwyd'<br>• Manyleb manwl o'r gwaith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (metrau sgwâr) | | • Ffotograffau o'r cynllun wedi'i gwblhau |
| TT25 | Toeon gwyrdd o ansawdd da a grëwyd i safonau Cod Toeon Gwyrdd y GRO (metrau sgwâr) (GRO) | Toeon gwyrdd newydd a grëwyd mewn canol tref, sy'n amlddefnydd ac, er enghraifft, yn helpu i gasgu dŵr glaw, yn amsugno nwyon tŷ gwydr, yn lleihau llygredd aer, yn lleihau costau ynni'r adeiladau, yn lleihau sŵn ac yn cefnogi bywyd gwyllt. | • Lluniadau'n dangos y toeon gwyrdd<br>• Manyleb o'r gwaith<br>• Ffotograffau o'r gwaith wedi'i gwblhau |
| TT26 | Capasiti ar gyfer arafu dŵr syn gorlifo neu ddŵr wyneb (metrau ciwbig) | Y capasiti, mewn metrau ciwbig, a grëwyd ar gyfer arafu dŵr syn gorlifo neu ddŵr wyneb drwy gyflawni'r prosiect a ariannwyd.<br><br>Gallai'r mesurau gynnwys toeon gwyrdd, systemau casglu dŵr glaw, gerddi dŵr glaw, systemau draenio cynaliadwy, pantiau coed trefol etc. | • Lluniadau<br>• Manyleb gwaith<br>• Ffotograffau |
| TT27 | Waliau Gwyrdd (metrau sgwâr) | Waliau gwyrdd newydd a grëwyd ar adeiladau mewn canol trefi.<br><br>Dylai dyluniad waliau gwyrdd fod yn briodol i'r strwythur (ynghlwm neu'n sefyll ar ei draed ei hun), fod yn hawdd eu cynnal a'u cadw a chynnwys systemau dyfrhau priodol a phlanhigion cadarn sy'n addas ar gyfer y lleoliad ac sy'n darparu cynefin i fywyd gwyllt. | • Lluniadau<br>• Manyleb gwaith<br>• Ffotograffau |
| TT28 | Cysylltedd – coridorau/ llwybrau gwyrdd (metrau) | Coridorau gwyrdd newydd a grëwyd i gysylltu mannau gwyrdd neu leoliadau allweddol mewn canol trefi ac i annog cerdded a beicio mewn amgylchedd diogelu a pleserus.<br><br>Enghreifftiau o brosiectau:<br>Plannu amlddefnydd ar hyd llwybrau cerdded neu lwybrau beicio ac mewn gorsafoedd bws a thrên, a darparu toeau gwyrdd ar bob cysgodfan bysiau mewn canol trefi. | • Lluniadau<br>• Manyleb gwaith<br>• Ffotograffau |
| TT29 | Digidol – Galluogi parthau cyswllt IoT ar gyfer defnyddio | Galluogi parth cyswllt IoT ar gyfer defnyddio dyfeisiau IoT mewn tref, e.e. drwy'r 'Rhwydwaith Pethau' a Phorth LoRaWAN neu dechnoleg/platfform IoT arall. | Nifer o ddyfeisiau o bosibl – gallant gynnwys dyfeisiau cyfrif ymwelwyr, dyfeisiau monitro biniau gwastraff, dyfeisiau mesur lefelau lleithder mewn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dyfeisiau IoT mewn trefi | | pridd, synwyryddion ansawdd aer, a dyfeisiau monitro parcio. |